**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 30 HYDREF 2019**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: R.G.Jones (Cadeirydd), A.J.Taylor, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, H.Jenkins, G.Nutt, K.Jones, C.Griffiths, A.Thomas, H.Jones, K.Warren, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Clement-Williams | Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Baglan, gan ei fod yn cyfeirio at ei Chronfa Gymunedol. Gan fod ei budd yn rhagfarnol, gadawodd hithau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |
| Y Cynghorydd L C Jones - | Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod, Pelenna (Clwb Rygbi Tonmawr) - gan fod ei mab yn |

| | |
|---|---|
| | chwarae i Glwb Rygbi Tonmawr ac mae ei gŵr yn hyfforddi un o'r timau. Gan fod ei budd yn rhagfarnol, gadawodd hithau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |
| Y Cynghorydd E V Latham - | Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Dwyrain Sandfields, gan fod y ddau adroddiad yn cyfeirio at ei Gronfa Gymunedol. Gan fod ei fudd yn rhagfarnol, gadawodd yntau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |
| Y Cynghorydd P D Richards – | Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Baglan, gan ei fod yn cyfeirio at Gronfa Gymunedol yr aelod yn ei ward. Gan fod ei fudd yn rhagfarnol, gadawodd yntau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |
| Y Cynghorydd A Wingrave - | Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Llangatwg, gan ei fod yn cyfeirio at ei Chronfa Gymunedol. Gan fod ei budd yn rhagfarnol, gadawodd hithau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Medi a 2 Hydref, 2019.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2019-20

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor

5. **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2019-20**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r wybodaeth am fonitro'r gyllideb a rhoi trefniadau rheoli ar waith i leihau gorwariant a'r effeithiau niweidiol ar gronfeydd wrth gefn.

2. Nodi'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd

3. Cymeradwyo'r cynigion i symud arian wrth gefn a throsglwyddo arian o'r gyllideb a hysbysu'r cyngor bod hyn yn briodol.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Diweddaru cyllideb y cyngor ar gyfer y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd, trosglwyddiadau a symudiadau o ran arian wrth gefn, yn unol â chyfansoddiad y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu ac wedi i'r cyngor eu hystyried a'u cymeradwyo.

6. **ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLEN GYFALAF 2019-20**

**Penderfyniadau:**

1. Cyflwyno cyllideb rhaglen gyfalaf 2019/20, gwerth £43,800m, i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2. Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Medi 2019.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Diweddaru'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 a hysbysu'r aelodau o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd yma.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2019-20

Nododd Aelodau'r Cabinet fod y gyfradd llog wedi bod yn ffafriol pan fenthycwyd y benthyciad aeddfedrwydd £10 miliwn (fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd) - hon oedd y gyfradd hirdymor isaf erioed i'r cyngor fenthyca arni.

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

## 8. ARFERION RHEOLI'R TRYSORLYS

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gyllid y byddai Arferion diwygiedig Rheoli'r Trysorlys bellach yn adlewyrchu trefniadau gweithio cyfredol, yn dilyn nifer o newidiadau staffio yn yr is-adran cyllid.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Datganiadau diwygiedig Arferion Rheoli'r Trysorlys fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd, a'u cyflwyno i'r cyngor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Diweddaru trefniadau llywodraethu Rheoli'r Trysorlys.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 9. CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AR GYFER 2019-20 - ADRODDIAD CYNNYDD HANNER BLWYDDYN

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

10. **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2015-2019: ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018-2019 AC ESTYN CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2015-2019 TAN FIS EBRILL 2020**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-2019 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 yn amodol ar ddiwygio'r paragraff sy'n ymwneud â'r Digwyddiad Coffáu Swffragetiaid i gynnwys cyfeiriad ar gyfranogaeth y Cynghorydd L M Purcell a Jane Gebbie,

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog digidol i wneud y fath newidiadau ag y mae eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol Crafft cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw'r fath newidiadau'n newid cynnwys y ddogfen a ystyrir gan y Cabinet yn sylweddol,

3. Cymeradwyo'r estyniad ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i fis Ebrill 2020.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL SYLWADAU, CANMOLIAETHAU A CHWYNION**

**Penderfyniad:**

Gohiriwyd yr adroddiad hwn i'w ystyried yn y cyfarfod heddiw a chaiff ei ailgyflwyno i gyfarfod y Cabinet a gynhelir ar 20 Tachwedd 2019.

12. **RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU**

**Penderfyniadau:**

1. Caiff Rheolau Gweithdrefnau Contractau y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd eu rhoi ar waith ar 6 Ionawr 2020, neu ar ddyddiad arall y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn penderfynu ei fod yn briodol,

2. Cyflwynir adroddiad i'r cyngor sy'n ceisio diwygio cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gynnwys y Rheolau Gweithdrefnau Contractau arfaethedig yn Atodiad 1 yr adroddiad.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn gyfoes fel eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau cyfreithiol a pholisi a roddwyd ar waith ers y dyddiad y cymeradwywyd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau cyfredol, ac sy'n effeithio ar weithgareddau caffael y cyngor a bod agweddau gweithdrefnol ar weithgareddau caffael y cyngor yn cael eu diweddaru ar lefel weithredol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu ac wedi i'r cyngor eu hystyried a'u cymeradwyo.

13. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - BAGLAN**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorwyr C Clement-Williams a P D Richards eu buddiannau, gan adael y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio am hynny)

**Penderfyniad:**

Caiff Menter Rhandiroedd Cymunedol ei datblygu ar safle Rhandiroedd Heol Crawford, Baglan, sy'n eiddo i'r cyngor, ac y bydd y Cynghorwyr Carol Clement -Williams a Susanne Renkes yn cyfrannu £4,593 yr un, dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

(Ailymunodd y Cynghorwyr C Clement-Williams a P D Richards â'r cyfarfod)

## 14. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - LLANGATWG

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd A Wingrave ei budd, gan adael y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio am hynny)

**Penderfyniad:**

Gwella'r llifoleuadau yng Nghae Glaswellt Artiffisial Ysgol Gymunedol Llangatwg, Heol Fawr, Llangatwg a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Wingrave sef £8,000 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

(Ailymunodd y Cynghorydd A Wingrave â'r cyfarfod)

## 15. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - CANOL COEDFFRANC

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r sesiynau a'r cyfarpar Therapi Celf i ddechrau côr cymunedol ar gyfer y grŵp gwirfoddol 'Growing Together' sy'n cwrdd yn 'Nhŷ'r Santes Fair', y Ganolfan Gymunedol newydd ar gyfer Eglwys y Santes Fair yn Sgiwen, a dyfarnu £4,524.27 o ddyraniad y Cynghorydd Angharad Aubrey dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 16. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - Y CREUNANT

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo gosod gât ddiogelwch sy'n ei chau ei hun yn ardal chwarae'r plant bach yng Nghanolfan Gymunedol y Creunant, 24 Heol Woodland, y Creunant, Castell-nedd, a dyfarnu £1,004.00 o ddyraniad y Cynghorydd Siân Harris dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 17. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - ONLLWYN

**Penderfyniad:**

Cyflogi Ceidwad Cymunedol yn Ward Onllwyn, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Dean Cawsey sef £10,000 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - PELENNA (CLWB RYGBI TONMAWR)**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd L C Jones ei budd, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio am hynny)

**Penderfyniad:**

Prynu cyfarpar hyfforddi newydd ar gyfer Adran Plant Bach ac Iau Clwb Pêl-droed Tonmawr, Dan-y-Coed, Tonmawr, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Jeremy Hurley sef £800 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

(Ailymunodd y Cynghorydd L C Jones â'r cyfarfod)

19. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - PELENNA (CLWB BOWLIO PONT-RHYD-Y-FEN)**

**Penderfyniad:**

Prynu peiriannau cynnal a chadw tiroedd newydd ar gyfer Clwb Bowls Pont-rhyd-y-fen, Stryd y Frenhines, Pont-rhyd-y-fen, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Jeremy Hurley sef £682.50 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

20. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - RESOLFEN (NEUADD LES Y GLOWYR)**

**Penderfyniad:**

Datblygu Neuadd Les y Glowyr, Heol Castell-nedd, Resolfen ymhellach, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Dean Lewis sef £4,000 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

21. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - RESOLFEN (ARDAL CHWARAE BRYN GOLWG)**

**Penderfyniad:**

Ychwanegu cyfarpar chwarae at ardal chwarae Bryn Golwg, Clun, Castell-nedd, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Dean Lewis sef £4,995 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

22. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - DWYRAIN SANDFIELDS (DIFFIBRILWYR)**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd E V Latham ei fudd, a gadawodd y cyfarfod a'r drafodaeth a'r pleidleisio am hynny)

**Penderfyniad:**

Prynu 2 Diffibriliwr Allanol Awtomataidd a'u gosod yng Nghlwb Rygbi Aberavon Green Stars a Chlwb Lles Nwy Port Talbot, a bod y Cynghorwyr Edward Latham a Matthew Crowley yn cyfrannu £1,300 yr un o'u Cronfeydd Cymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

23. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - DWYRAIN SANDFIELDS (PARC VIVIAN)**

**Penderfyniad:**

Moderneiddio'r cyfleusterau yn lawnt fowls Parc Vivian, Rhodfa Parc Vivian, Port Talbot, a sicrhau eu bod yn ddiogel, a dyfarnu £1,605 o ddyraniad y Cynghorydd Edward Latham dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**